



At:

Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau Preifat sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
UCM Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
A chyrrff â buddiant eraill

Mawrth 2016

Annwyl Gyfaill

CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH YN 2016/17

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 (OSC 2016 Rhif 77 (Cy.34))

Daeth Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 ("y Rheoliadau") i rym ar 22 Chwefror 2016. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r pecyn cymorth sydd ar gael i fyfirwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Medi 2016 neu ar ôl hynny.

Bydd copi electronig o Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 ar gael i'w lawrlwytho o wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn y dyfodol agos: <http://www.legislation.gov.uk/cy>

Dylai sefydliadau sy'n dymuno cael copïau papur o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol ffonio, e-bostio neu ysgrifennu at y Llyfrfa (gweler y manylion cyswllt isod).

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Rheoliadau Cymorth i Fyfirwyr neu'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch yn y lle cyntaf ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru – e-bost: cyllidmyfirwyr@cymru.gsi.gov.uk



ARCHEBU COPIAU O'R RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR

Cewch archebu'r Rheoliadau o'r Llyfrfa:

TSO Orders/ Post Cash Dept
PO Box 29
Norwich
NR3 1GN

Rhif ffôn: 0870 600 5522

E-bost: customer.services@tso.co.uk



Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2016/17: crynodeb o'r newidiadau

Pecyn cymorth sylfaenol i fyfyrwyr amser llawn ar gyfer 2016/17

Yn amodol ar eu cymhwysedd, bydd gan fyfyrwyr amser llawn newydd, sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, yr hawl i'r pecyn canlynol o gymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau o 1 Medi 2016 ymlaen:

- benthyciad ffioedd dysgu, nad yw'n dibynnu ar brawf modd, hyd at £3,900;
- grant ffioedd dysgu, nad yw'n dibynnu ar brawf modd, i dalu am y gwahaniaeth rhwng uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael, a'r ffi ddysgu a godir gan brifysgol yn y DU (uchafswm y grant yw £5,100, mewn achosion lle codir ffi ddysgu o £9,000);
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru sy'n dibynnu ar brawf modd (grant cynhaliaeth) hyd at £5,161, gan ddibynnu ar incwm yr aelwyd;
- benthyciad cynhaliaeth sy'n dibynnu ar brawf modd (hyd at £4,786 os yw'r myfyriwr yn byw yn nhŷ ei rieni; hyd at £6,183 os yw'n byw i ffwrdd o dŷ ei rieni; a hyd at £8,662 os yw'n astudio yn Llundain).

Yn ychwanegol at yr uchod, mae *Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2016* yn gwneud darpariaeth ar gyfer dileu rhan o fenthyciad cynhaliaeth hyd at £1,500, unwaith y bydd y broses o ad-dalu'r benthyciad perthnasol wedi dechrau.

Crynodeb o'r newidiadau i'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn

Newidiadau i fenthyciadau a grantiau ffioedd dysgu

Bydd gan fyfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau ar 1 Medi 2012, neu wedi hynny, yr hawl i gael naill ai gymorth ffioedd dysgu i dalu am gost eu cwrs, neu hyd at £9,000 y flwyddyn, p'un bynnag sydd leiaf. Mae'r £9,000, sef uchafswm y caiff sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ei chodi, yn parhau. Bydd y cymorth yn cynnwys yr hawl i gael benthyciad ffioedd dysgu nad yw'n dibynnu ar brawf modd, a bydd hwnnw'n cael ei godi i £3,900, ochr yn ochr â grant ffioedd dysgu, nad yw'n dibynnu ar brawf modd, hyd at £5,100. Bydd myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y system newydd, sy'n parhau â'u cwrs dynodedig a ddarperir gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon, ac a ddechreuodd y cwrs hwnnw cyn 1 Medi 2012, yn cael hawlio benthyciad ffioedd dysgu, nad yw'n dibynnu ar brawf modd. Benthyciad hyd at £3,925 fydd hwn; mae wedi ei gynyddu i adlewyrchu'r cynnydd yn uchafswm y ffioedd a ganiateir yno, sydd wedi eu codi o £3,805. Mae'r pecyn cymorth ffioedd yn parhau heb ei newid ar gyfer myfyrwyr eraill sy'n parhau â'u cwrs, ac a ddechreuodd y cwrs hwnnw cyn mis Medi 2012.



Cynyddu benthyciadau at gostau byw

Cynyddir y benthyciadau at gostau byw o oddeutu 10% ar gyfartaledd. Bydd myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau ar 1 Medi 2012, neu wedi hynny, yn gymwys i gael uchafswm y benthyciad cynhaliath, sef £6,183 (gan ddibynnu ar incwm yr aelwyd), neu £8,662 os yw'r myfyrwr yn astudio yn Llundain.

Dileu cymhwysra ar gyfer Grant Gofal Plant pan fydd myfyrwr cymwys yn datgan hawl i gael Gofal Plant Di-dreth.

Disgwylir i Lywodraeth y DU gyflwyno Gofal Plant Di-dreth tua dechrau 2017 ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio. Bydd Llywodraeth y DU yn talu 20% o gostau gofal plant hyd at uchafswm o £10,000 - hyd at £2,000 ar gyfer pob plentyn hyd at 12 oed. Rhaid i'r ddau riant fod yn gweithio ac yn ennill llai na £150,000. Er ei bod yn annhebygol y bydd gan lawer o fyfyrwyr addysg uwch yr hawl i gael Gofal Plant Di-dreth, mae yna bosibilrwydd y gallai nifer bach o fyfyrwyr llawn amser o aelwydydd incwm isel gael eu hariannu ddwywaith, drwy Gofal Plant Di-dreth a'r Grant Gofal Plant.

Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau 2015 er mwyn atal myfyrwyr rhag derbyn y Grant Gofal Plant os ydyn nhw (neu eu partneriaid) wedi gwneud datganiad eu bod yn gymwys i gael Gofal Plant Di-dreth am gyfnod hawlio o dri mis.

Darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddirymu dynodiad cyrsiau addysg uwch, neu ei atal dros dro.

Er y byddai'n bosibl dadlau bod y pŵer i ddirymu dynodiad cyrsiau addysg uwch, neu ei atal dros dro, yn ymhlyg yn Rheoliadau 2015, mae'r rheoliadau diwygio hyn yn rhoi'r gallu diamwys i Weinidogion Cymru ddirymu dynodiad cyrsiau addysg uwch, neu ei atal dros dro, a hynny fesul achos.

